

Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Hydref yng Ngholeg Menai, Llangefni.

Yn bresennol:

Enw Cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
Dr Stuart	Anderson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gavin	Crook	National Grid
Cllr Goronwy	Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
W. Raymond	Evans	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Marton	Fabok	Aelod o'r Cyhoedd
Leon	Flexman	Pŵer Niwclear Horizon
Richard	Foxhall	Pŵer Niwclear Horizon
Damian	Hamilton	DWP
Y Cyng. William Thomas	Hughes	Talybolion
Kenneth P	Hughes	Talybolion
Nia	Jeffreys	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llio	Johnson	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Trefor	Jones	Prifysgol Bangor
Gwynne Morris	Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
John Idris	Jones	Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni
Richard Parry	Jones	Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Elfed	Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cyng. G.O	Jones	Llifon
Gerallt	Jones	Menter Môn
Y Cyng. Anna	Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Dr Geraint	Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Tony	Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cai	Jones	Swyddfa Rhun ap Iorwerth AC
Steve	Knight-Gregson	National Grid
Arthur	Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Saranne	Postans	Pŵer Niwclear Horizon
Dr Ian	Rees	Coleg Menai
Alun	Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Alun	Roberts	Môn CF
Y Cyng. Bleddyn	Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
Eric	Torr	Cwmni Cemaes Cyf
Wyn	Thomas	Coleg Menai
Y Cyng. Dafydd Rhys	Thomas	Ynys Gybi
Clive	Thomas	Ysgol Gyfun Llangefni
Gwilym E	Williams	Aelod o'r cyhoedd
Iwan	Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Keith	Williams	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
Emyr	Williams	Ysgol Uwchradd David Hughes

Ymddiheuriadau		
Rhun	ap Iorwerth	AC Ynys Môn
Aaron	Bailey	Ysgol Syr Thomas Jones
Andy	Billcliff	CBI Cymru
Jackie	Blackwell	CAB Ynys Môn
Tom	Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Carys	Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd	Elis-Thomas	AC Dwyfor Meirionnydd
Y Cyng. Clifford	Everett	Cyngor Tref Caergybi
Janet	Finch Saunders	AC Conwy
Andrew	Forfar	Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Helen	George	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Y Cyng. John	Griffith	Talybolion
Y Cyng. Dafydd	Griffiths	Cyngor Cymuned Llaneilian (Cadeirydd)
Llŷr	Gruffydd	AC Gogledd Cymru
Geraint	Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Y Cyng. Kenneth P	Hughes	Talybolion
Y Cyng. Llinos Medi	Hughes	Talybolion
Alli	Hunt	NSA – Niwclear
Alun Ffred	Jones	AC Arfon
Jac	Jones	Is-gadeirydd (Menter Mechell / Carrog Renewables / Ynni Talybolion)
Y Cyng. John Arfon	Jones	Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Linda Wyn	Jones	Cynrychiolydd o'r Rhaglen Ynys Ynni
Y Cyng. Richard Owain	Jones	Twrcelyn
Stephen	Lindoe	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Elfyn	Llwyd	AS Dwyfor Meirionnydd
Rita	Lyon	Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf dros Ynys Môn
Y Cyng. Aled	Morris Jones	Twrcelyn
Y Cyng. Derek	Owen	Cynghorau Cymuned Llanbadrig (Cadeirydd) / Llanfachraeth / Bodffordd
Albert	Owen	AS Ynys Môn
Delyth	Phillips	Chwarae Teg
Aled	Roberts	AC Gogledd Cymru
Aled	Roberts	Anabledd Taran
Cllr Val	Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Phil	Scott	Partneriaeth Twristiaeth Ynys Môn
David	Shepherd	Prifysgol Bangor
David	Walden	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Dylan	Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd
Y Cyng. Ieuan	Williams	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (Llugwy)
Adam	Williams	Ysgol Uwchradd Caergybi
Melanie	Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan

Os nad yw eich enw wedi cael ei roi ar y rhestr trwy ryw amryfusedd neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

Gair o Groeso gan y Cadeirydd

- Estynnodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), groeso i bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd DE wahoddiad i Dr Ian Rees, Pennaeth Coleg Menai Llangefni, i ddweud gair neu ddau. Croesawodd Dr Rees bawb i Goleg Menai gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio â'r holl bartneriaid oedd yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd er mwyn galluogi pobl ifanc a phobl hŷn ar Ynys Môn i ennill a datblygu sgiliau newydd.

Ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

- Derbyniwyd ymddiheuriadau. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y GCP (8^{fed} Mai 2014) yn gofnod gwir a chywir o drafodaethau'r cyfarfod a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

Y diweddaraf am weithgareddau ar y safle - Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu'r Safle

- Eglurodd Charlie Tasker (CT) bod prosiect Wylfa Newydd yn mynd rhagddo'n dda. Dywedodd fod 32 aelod o staff parhaol yn gweithio ar safle Wylfa ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys staff diogelwch a chontractwyr sefydlog. Roedd yn rhagweld y byddai rhagor o gyfleoedd yn codi yn 2015 ac ymhell i'r dyfodol.
- Eglurodd CT fod tua 230 aelod o staff yn gweithio ar y prosiect yng Nghaerloyw. Rhagwelir y bydd y nifer hwn yn codi i hyd at 450 erbyn 2017 oherwydd y gwaith dylunio, cynllunio a thrwyddedu a wneir yno. Er y bydd nifer y staff yn codi yng Nghaerloyw, pwysleisiodd mai Wylfa fydd yn gweld y cynnydd mwyaf o ran nifer y staff a'r cyfleoedd a fydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Pan fydd Wylfa Newydd yn weithredol, cyflogir tua 1,000 aelod o staff yno.
- Dywedodd CT bod swyddi yng Nghaerloyw ac ar y safle yn Wylfa yn cael eu hysbysebu mewn sawl ffordd:
 1. Ar wefan Horizon – www.horizonnuclearpower.com/gyrfaoedd
 2. Mae pob swydd leol yn cael ei hysbysebu yn y papurau newydd lleol
 3. Cylchgronau arbenigol
 4. Ffrwd Twitter Horizon @horizonnuclear (esboniodd CT bod defnyddio dulliau digidol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fenter newydd i Horizon)
- Eglurodd CT bod helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd gan Wylfa Newydd i'w cynnig yn bwysig ac y bydd hyn yn rhan o'r strategaeth addysg sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Claire Burgess (CB), Cydlynnydd Rhaglen Addysg newydd Horizon. Bydd y strategaeth yn barod yn 2015 a'i bwriad fydd ennyn diddordeb pobl iau ledled yr ynys drwy dynnu sylw at yr holl rolau sydd ar gael yn y sector ynni niwclear.
- Dangosodd CT ddiagram yn dangos y llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer y gwaith adeiladu - o'r cyfnod cyn adeiladu drwy'r prif waith adeiladu hyd y cyfnod gweithredol. Eglurodd CT fod amserlen fwy manwl yn cael ei llunio gyda Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd. a bydd hon yn

amlygu beth fydd y gofynion o ran y gadwyn gyflenwi, camau'r gwaith a'r nifer debygol o weithwyr ar gyfer y prif waith adeiladu. Disgwylir y bydd yr amserlen hon yn barod yn ystod chwarter cyntaf 2015.

- Rhoddodd CT ddiweddariad byr ar y gweithgarwch ar y safle ar hyn o bryd. Dywedodd fod yr ymchwiliadau tir bron â chael eu cwblhau a'r bwriad yw cael gwared ag adeiladau anniogel, gwag ddiwedd Hydref. Mae Dawnus yn cefnogi'r gwaith hwn drwy barhau i ddarparu cymorth cynnal a chadw ar y safle ar ffurf gwaith ffensio, gwella ffyrdd cludo a chynnal a chadw llwybrau ar y safle a mynediad.
- Nododd CT bod astudiaethau daearegol a daearol yn cael eu cynnal gydol yr hydref a'r gaeaf i gefnogi'r gwaith o lunio adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar yr Amgylchedd.
- Esboniodd CT bod Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd yn mynd rhagddo ers tro. Bydd hwn yn amlygu unrhyw effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg. Cyn gynted ag y canfyddir y rhain, bydd Horizon yn gweithio gydag arbenigwyr annibynnol i asesu beth yw'r ffordd orau i liniaru arnynt.
- Esboniodd CT fod Horizon, ochr yn ochr â phenodi CB, hefyd wedi penodi Arweinydd newydd ar gyfer Diogelwch y Safle, Cynghorydd Iechyd a Diogelwch, Cydlynnydd Amgylcheddol a Datblygwr Prosiect. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu recriwtio'n lleol a gobaith Horizon yw tyfu'r tîm ar y safle yn y dyfodol agos, a fydd, yn ei dro, yn dod â rhagor o gyfleoedd i'r ardal leol.
- Dywedodd CT fod rhaglen fusnes newydd wedi cael ei lansio i helpu cyflenwyr i baratoi ar gyfer y cyfleoedd sydd gan Wylfa Newydd i'w cynnig. Nod y rhaglen fusnes hon fydd amlinellu'r hyn y mae Horizon yn ei ddisgwyl gan gyflenwyr a busnesau ac i'w paratoi ar gyfer cyfleoedd tendro yn y dyfodol. Cynhelir cyfres o weithdai yn 2015 ar nifer o wahanol feysydd, gan gynnwys sut i ymateb i dendrau, sut i reoli gwybodaeth a pha asesiadau o risg y bydd angen eu rhoi ar waith. Esboniodd CT fod nifer o gwmnïau lleol yn elwa o'r prosiect eisoes, gan gynnwys Corvus Security, sydd bellach yn gyfrifol am reoli cyfleusterau swyddfa Horizon ar safle Wylfa Newydd.
- I gloi, esboniodd CT er bod ymgynghori yn garreg filltir bwysig yn hanes y prosiect, bydd Horizon yn weladwy ar y safle yn ystod ac ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Esboniodd y bydd gwaith yn parhau ar y safle ac y cynhelir Cymorthfeydd Agored o fis Rhagfyr ymlaen ac yn 2015, fel bod aelodau o'r gymuned yn gallu parhau i ymgysylltu â Horizon.
- Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

Hitachi-GE – Mr Kenichi Sato (KS), Rheolwr Cyffredinol, Trwyddedu, Hitachi Europe Ltd

- Diolchodd Mr Kenichi Sato (KS) i'r grŵp am y cyfle i ymweld â Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Yna rhoddodd gyflwyniad ar waith Hitachi-GE hyd yma.

- Rhoddodd KS amlinelliad o rôl y 50 o gyflogeion uniongyrchol, gweithwyr ar secondiad a chontractwyr sefydlog oedd yn gweithio ledled y DU ar Brosiect Wylfa Newydd ac ar ABWR y DU yn benodol.
- Esboniodd KS bod Hitachi-GE yn disgwyl y bydd nifer sylweddol o gyflogeion uniongyrchol a gweithwyr ar secondiad yn yr ardal erbyn yr adeg y bydd y prif waith adeiladu yn dechrau yn Wylfa Newydd. Crybwyllodd KS fod gan Hitachi-GE dair swyddfa yn y DU, sef: Y swyddfa Ganolog yn Paddington, Lerpwl (y swyddfa y mae KS yn gweithio ynddi), a gyda Horizon yng Nghaerloyw. Nododd bod Hitachi-GE, ymhen amser, yn disgwyl lleoli mwy o staff gyda Horizon yn Wylfa Newydd.
- Esboniodd KS fod gan Pŵer Niwclear Horizon contract Peirianeg a Dylunio Pen Blaen gyda Hitachi-GE Nuclear Energy (HGNE). Mae hyn yn golygu bod cwmnïau yn gallu rhannu gwybodaeth, ac, yn benodol, gwybodaeth dylunio ar gyfer y broses Asesiad Dyluniad Generig (GDA).
- Eglurodd KS y bydd Hitachi-GE yn arwain mewn dau faes; sef gyrru ABWR y DU drwy'r broses GDA ac, yn y dyfodol, arwain y gwaith o adeiladu Wylfa Newydd fel contractwr i Horizon. Nododd KS mai Horizon yw'r datblygwr o hyd a'r cwmni hwnnw fydd yn gyfrifol am y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO – cais am ganiatâd cynllunio i'r Llywodraeth) a'r holl ofynion o ran trwyddedu'r safle.
- Amlinellodd KS sut y mae Hitachi-GE yn rheoli'r prosiect GDA yn y DU. Eglurodd, er bod arbenigwyr o Japan yn ymwneud yn helaeth â'r prosiect, mae oddeutu 50 aelod o'r tîm wedi'u lleoli yn y DU ac yn gyfrifol am wahanol agweddau ar y prosiect. Roedd y tîm hwn, yn ei dro, yn cael ei gefnogi gan oddeutu 200 o beirianwyr penodedig yn Japan sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am adeiladu a dylunio ABWR yn cael ei phasio ymlaen i'r tîm GDA yma yn y DU.
- Dywedodd KS y bydd Hitachi-GE yn gwario miliynau o bunnoedd yn y DU dros gyfnod y GDA. Crybwyllodd sylw a wnaed yn y cyfryngau bod y DU wedi gwario tua £30m ar Asesiadau Dyluniad Generig blaenorol.
- Eglurodd KS mai proses asesu cam-wrth-gam yw Asesiad Dyluniad Generig, ac wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi, mae pob cam yn fwyfwy manwl. Mae hyn yn golygu bod ABWR y DU yn cael ei asesu'n drylwyr ar gyfer ei ddefnyddio yn y DU cyn y bydd y gwaith o'i adeiladu yn dechrau ar y safle. Ar ôl cwblhau'r GDA, bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn cyhoeddi Cadarnhad o Dderbyn Dyluniad (DAC) ac, ochr yn ochr â hyn, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi Datganiad o Dderbynioldeb Dyluniad (SoDA).
- Eglurodd KS fod 4 Cam i'r GDA. Cam Un – paratoi'r Dyluniad, yr Achos Diogelwch a Throsolwg o'r Honiadau Diogelwch. Cwblhawyd y rhain yn 2013. Cam Dau – y Dyluniad Sylfaenol, yr Achos Diogelwch a Throsolwg o'r Honiadau Diogelwch. Mae'r cam hwn hefyd wedi'i gwblhau. Dywedodd KS fod tîm y prosiect bellach wedi dechrau ar Gam Tri, sy'n canolbwyntio ar y Dyluniad Cyffredinol, yr Achos Diogelwch a'r Adolygiad o'r Dadleuon Diogelwch. Eglurodd KS mai nod Hitachi-GE yw cwblhau Cam 3 mewn blwyddyn (ar ddiwedd

2015). Cam Pedwar – Rhagwelir y bydd y Dyluniad Manwl, yr Achos Diogelwch a'r Asesiad o Dystiolaeth Diogelwch wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2017.

- Pwysleisiodd KS fod Hitachi-GE wedi ymrwymo i ymgysylltu mewn modd tryloyw ac agored gyda rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Ers lansio Cam Dau, eglurodd KS fod Hitachi-GE wedi creu a lansio gwefan bwrpasol ar gyfer yr Asesiad Dyluniad Generig (www.hitachi-hgne-uk-abwr.co.uk) ac wedi gwahodd aelodau o'r cyhoedd a phartion sydd â diddordeb i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau ar y broses a'r dechnoleg. Hyd yma, rydym wedi cael dros 30 o ymholiadau technegol.
- Diolchodd DE i KS am y cyflwyniad. Yna gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw gwestiynau.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd Mr Gwyn Morris Jones (GMJ) pam mai Adweithydd Dŵr Gwasgeddedig (PWR) oedd yn yr arfaeth ar gyfer Wylfa Newydd, gan fod y dechnoleg hon yn nesu at ddiwedd ei hoes, a pham nad oedd technoleg Thoriwm/Halen Tawdd yn cael ei hystyried.
- Eglurodd Leon Flexman y byddai Horizon yn defnyddio'r ABWR, sy'n dechnoleg wahanol i'r PWR. Aeth CT ymlaen i egluro bod adweithyddion ABWR eisoes yn dechnoleg brofedig sydd ar gael mewn mannau eraill yn y byd ac y gellir eu hadeiladu mewn pryd ac o fewn y gyllideb. Dywedodd nad oedd technoleg Thoriwm a Halen Tawdd wedi'i phrofi a'i bod eto i'w harchwilio'n llawn yn unrhyw le yn y byd. Felly, nid yn unig y byddai angen ei phrofi'n fasnachol, ond hefyd byddai'n rhaid iddi fynd drwy'r un broses asesu dyluniad ag ABWR y DU, sy'n golygu mai siawns brin iawn fyddai ganddi o gael ei datblygu yn y DU ar unrhyw adeg yn y dyfodol agos.

Wylfa Newydd: Ymgynghoriad Ffurfiol - Kieran Somers (KSO), Pennaeth Cynllunio Pŵer Niwcelar Horizon

- Rhoddodd Kieran Somers (KSO) gyflwyniad ar gam cyntaf ymgynghoriad Horizon â'r gymuned a lansiwyd ar 29 Medi.
- Eglurodd KSO mai'r cam cyntaf yn y broses ymgynghori oedd cyhoeddi Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SOCC) a gafodd sêl bendith Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Medi cyn ei gyhoeddi ar 15 Medi. Mae'r SOCC yn amlinellu sut y bydd Horizon yn ymgynghori, ynghylch pa faterion a sut yr ymdrinnir ag adborth. Dywedodd fod y SOCC ar gael ar wefan Horizon ([http://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/SOCC/SOCC%202014%20\(Welsh\)%20\(FINAL-LR\).pdf](http://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/SOCC/SOCC%202014%20(Welsh)%20(FINAL-LR).pdf)) ac mewn llyfrgelloedd ledled Ynys Môn, Conwy a Gwynedd.
- Rhoddodd KSO drosolwg o gam cyntaf ymgynghoriad Horizon. Eglurodd bod yr ymgynghoriad yn garreg filltir bwysig yn hanes y prosiect a'r tîm. Hwn fyddai'r tro cyntaf y byddai pobl leol, cymunedau a rhanddeiliaid yn gallu mynegi barn am y prosiect.

- Er y gallai pobl gyflwyno sylwadau ar unrhyw ran o'r prosiect, eglurodd KSO nad oedd modd newid rhai penderfyniadau.
- Dywedodd fod Horizon yn cynnig y byddai dau ABWR y DU ar y safle, ac y byddai angen cyfleusterau ategol a oedd yn cynnwys labordai ac unedau rheoli brys ar wahân i'r safle. Dywedodd hefyd y byddai angen ymchwilio i nifer o ddatblygiadau ategol eraill yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynnwys llety i'r gweithwyr, safle parcio a theithio a chanolfan logisteg. Byddai hefyd angen Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) a byddai hefyd angen adeiladau dros dro.
- Hefyd eglurodd KSO mai un pwynt pwysig i'w drafod oedd yr A5205 a'r cynnig i greu ffordd fynediad newydd. Byddai hyn yn dargyfeirio traffig adeiladu oddi wrth Dregele a Bae Cemaes.
- Dangosodd KSO ddiagram o'r datblygiad MOLF dangosol ym Mhorth-y-pistyll. Nododd mai cynnig drafft yn unig oedd hwn ar hyn o bryd, ond y byddai'n dod yn gynnig terfynol yn yr ychydig fisoedd nesaf - ar ddechrau 2015 mae'n debyg.
- Eglurodd KSO fod angen cloddio 10 miliwn tunnell fetrig o ddeunydd ac mai'r bwriad ar hyn o bryd oedd aildddefnyddio'r deunydd hwn ar gyfer gwaith ailffurfio a thirlunio ar y safle. Un cwestiwn y mae Horizon yn awyddus i gael ymatebion iddo yw a ddylid ceisio sicrhau bod yr adeilad yn ymdoddi i'r tirlun o amgylch wrth ei dirlunio a'i ddylunio, neu a ddylai sefyll allan.
- Soniodd KSO am ddatblygu'r gweithlu. Dywedodd y byddai rhwng 4,000 a 6,000 o bobl yn gweithio ar y safle ar ddechrau'r cyfnod adeiladu ac y gallai hyn godi i hyd at 8,500 o weithwyr dros gyfnod byr ar adegau brig. Unwaith y bydd yr orsaf bŵer yn gwbl weithredol, bydd tua 1,000 o bobl yn gweithio ar y safle.
- Eglurodd KSO fod Datblygiadau Cysylltiedig yn rhan bwysig o'r prosiect, sef, yn benodol, llety dros dro i weithwyr, cyfleuster parcio a theithio a logisteg. Dywedodd KSO fod Horizon wedi pennu ardal ddaearyddol eang i'w chwilio ar gyfer y cyfleusterau hyn sydd wedi'i hamlinellu yn y dogfennau ymgynghori. Roedd y darn hwn o dir wedi'i seilio ar bellter gyrru o 30 munud i Wylfa ac roedd yn cynnwys 30 safle. Yn sgil adborth gan y cyhoedd, bwriad Horizon oedd lleihau'r nifer i lai na deg dewis erbyn ail gam yr ymgynghoriad.
- Eglurodd KSO bod pobl yn aml yn holi Horizon am wella ffyrdd ochr yn ochr â datblygiadau cysylltiedig. Dywedodd KSO mai'r gobaidh oedd defnyddio llongau i gludo eitemau mawr neu swmpus a fyddai eu hangen yn ystod y cyfnod adeiladu, ond serch hynny, byddai angen cludo rhai deunyddiau hyd y ffordd. Felly, dywedodd KSO y bydd angen gwella'r A5025 mewn rhai mannau allweddol sef, yn benodol, Y Fali, Llanfachraeth, Llanfaethlu a Chefn Coch, gyda rhywfaint o fân waith lledu'r ffordd mewn mannau eraill. Dywedodd KSO bod rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn y Brif Ddogfen Ymgynghori.

- Er mwyn ategu'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol, eglurodd KSO fod dwy astudiaeth ar wahân ar y gweill i helpu'r gwaith o ddatblygu'r prosiect. Y cyntaf fydd adroddiad ar effeithiau posibl y prosiect ar yr iaith Gymraeg, sef yr Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan grŵp annibynnol o arbenigwyr, gyda chynghor ar gael gan Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, dan gadeiryddiaeth Bethan Jones Parry. Yr ail astudiaeth yw'r Asesiad o Effaith ar Iechyd. Caiff yr astudiaeth hon hefyd ei goruchwylio gan grŵp annibynnol o arbenigwyr, dan gadeiryddiaeth Dr Andrew Jones o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Dywedodd KSO y byddai materion cymdeithasol a materion cysylltiedig â hamdden hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.
- Eglurodd KSO y byddai dau brif gam i'r broses ymgynghori. Bydd cam un yn para am ddeg wythnos, sef rhwng 29 Medi ac 8 Rhagfyr, a byddai cam dau yn cael ei lansio tua blwyddyn yn ddiweddarach. Rhwng cam un a cham dau, bydd adroddiad interim ar adborth yn cael ei gyhoeddi. Bydd hwn yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd yn ystod cam un a sut yr ystyriwyd ac y rhoddwyd sylw i'r sylwadau hyn.
- Dywedodd KSO efallai y byddai hefyd angen cynnal cylchoedd llai o ymgynghori penodol ar gyfleusterau ategol a datblygiadau cysylltiedig rhwng y ddau gam. Byddai Cymorthfeydd Agored, cyfarfodydd o Grŵp Cyswllt y Prosiect a gweithgareddau ymgysylltu - cyflwyniadau a/neu bresenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol - yn parhau i gael eu cynnal gydol 2015 ac yn y dyfodol, fel arfer.
- Dywedodd KSO bod yr ymgynghoriad wedi'i strwythuro o amgylch gweithgareddau mewn tri pharth. Parth A oedd Ynys Môn, Parth B oedd Gwynedd a Parth C oedd Gogledd Orllewin Cymru. Eglurodd KSO mai'r brif gynulleidfa oedd y rheini oedd yn byw agosaf at y safle – y rheini a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol - ynghyd â'r bobl hynny oedd yn byw yn yr ardaloedd oedd wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau cysylltiedig, megis yr A5025. Bydd gan drigolion Parthau B a C amryw o sylwadau i'w gwneud ar y prosiect, o sgiliau a swyddi, i draffig a chlodiant, iaith, diwylliant a threftadaeth. Mae sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud ac yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn bwysig.
- Eglurodd KSO y byddai'r ymgynghoriad yn para am ddeg wythnos ac y byddai wedi'i strwythuro o amgylch cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus mewn lleoliadau allweddol ledled y tri pharth. Byddai aelodau o dîm Horizon yn bresennol yn y digwyddiadau hyn i roi gwybodaeth i bobl am y prosiect. Byddai'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai cyfres o ddigwyddiadau galw heibio llai hefyd yn cael eu cynnal mewn mannau cyhoeddus a hamdden a safleoedd cyflogwyr mawr. Hefyd, mae dogfennau am y prosiect ar gael mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd cynghorau ar draws y tri pharth. Dywedodd KSO bod yr holl wybodaeth ar gael ar wefan ymgynghori Horizon ac y gall pobl hefyd gyflwyno sylwadau drwy'r wefan honno.
- Dywedodd KSO fod Horizon yn ceisio cynnwys gymaint â phosibl o bobl yn yr ymgynghoriad drwy ymgysylltu â nifer o grwpiau nad ydynt yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau fel arfer. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl ifanc, grwpiau sy'n anweithgar yn economaidd, sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol, grwpiau anabl neu'r rheini sydd ag anawsterau dysgu yn

ogystal â pherchnogion cartrefi gwyliau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ymateb, a'i bod mor hawdd â phosibl i ymateb. Mae cyfres o ddigwyddiadau a chyflwyniadau yn cael eu hystyried i helpu i wella cyswllt gyda'r grwpiau hyn.

- Dywedodd KSO fod yr ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu'n eang. Ochr yn ochr â chylchlythyr cymunedol diweddar, roedd hysbysebion yn cael eu rhoi mewn papurau lleol, roedd posteri'n cael eu harddangos mewn llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus o amgylch yr ardal, roedd rhanddeiliaid yn cael gwybod amdano, gofynnwyd i nifer o sefydliadau gysylltu â'u haelodau ac roedd Horizon wedi lansio ffrwd Twitter newydd. Gofynnodd KSO i holl aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect wneud eu gorau i annog y rheini roeddynt yn eu cynrychioli i gymryd rhan.
- Eglurodd KSO eu bod wedi ei gwneud yn hawdd i bobl ymateb a'u bod yn gallu rhoi adborth drwy lenwi'r ffurflenni oedd ar gael mewn arddangosfeydd neu ar-lein, drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad rhadbost a hefyd drwy gyfeiriad e-bost Wylfa ar gyfer ymholiadau. Eglurodd KSO bod llinell gymorth rhadffôn ar gael, ond bod yn rhaid i bob adborth ffurfiol gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Pwysleisiodd KSO fod adborth gan y cyhoedd, rhanddeiliaid a grwpiau a sefydliadau eraill yn bwysig i Horizon ac i ddyfodol Wylfa Newydd. Byddai pob sylw yn cael ei gydnabod lle bynnag y bo modd. Dywedodd KSO y byddai pob ymateb yn cael ei gofnodi, ei adolygu a'i ystyried yn fanwl a bod yr holl ddata yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Cyflwynir adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda DCO Horizon – bydd hwn yn egluro sut y defnyddiwyd yr adborth i lunio'r cynnig terfynol. Lle nad oedd Horizon yn gallu gweithredu ar feysydd adborth, byddai'n egluro pam. Dywedodd KSO fod Horizon wedi penodi cwmni data arbenigol – Dialogue By Design – i fod yn gyfrifol am y rhan hon o'r prosiect.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd GMJ a oedd trosglwyddo o dan y môr yn cael ei ystyried. Dywedodd fod teimladau cryf iawn yn cael eu mynegi yn erbyn datblygu mwy o beilonau ar draws Ynys Môn. Dywedodd fod trigolion yn bendant y dylid gosod ceblau ar wely'r môr, gan ffurfio cyswllt i'r grid cenedlaethol yng Nglannau Dyfrdwy.
 - Eglurodd Gavin Crook (GC) o'r National Grid y byddai rhagor o wybodaeth am gamau nesaf y National Grid yn cael ei darparu maes o law.
- Gofynnodd John Idris Jones (JIJ) sut oedd Horizon yn bwriadu symud gweddillion tanwydd a gwastraff niwclear pan fyddai Wylfa Newydd yn weithredol.
 - Eglurodd CT bod cyfleuster storio yn rhan o'r datblygiad niwclear yn Wylfa Newydd ac y byddai gweddillion tanwydd yn cael eu storio ar y safle hyd nes y gellid eu symud i Gyfleuster Gwaredu Daearegol Dwfn canolog sy'n cael ei ddatblygu gan y Llywodraeth. Dywedodd CT bod modd storio gweddillion tanwydd yn ddiogel ar y safle ac felly y mae hi wedi bod erioed.

- Dywedodd Will Edwards (WE) mai hwn oedd y tro cyntaf i'r Grŵp Cyswllt gael gwybod y byddai cyfleuster storio gweddillion tanwydd ar y safle. Gofynnodd am ragor o wybodaeth am y cyfleuster a beth fyddai'n cael ei storio yno.
 - Dywedodd DE fod gwybodaeth ar gael mewn dogfennau ymgynghori am y cyfleuster ac am yr hyn fyddai'n cael ei storio yno. Dywedodd fod ABWR y DU yn dechnoleg brofedig ac roedd yr un peth yn wir am storio tanwydd. Anogodd pawb i edrych ar y deunyddiau a rhoi gwybod i Horizon am unrhyw bryderon oedd ganddynt.
- Gofynnodd aelod o'r Grŵp Cyswllt (*enw heb ei gofnodi*) am ba hyd y bydd y gwastraff yn cael ei storio yn Wylfa Newydd.
 - Dywedodd CT y byddai gweddillion tanwydd yn cael eu storio ar y safle am hyd at 100 mlynedd.
- Dywedodd JIJ fod gweddillion tanwydd wedi bod yn cael eu storio yn Wylfa ers y 1970au, ond y cynnig gwreiddiol oedd am 40 mlynedd cyn ei symud i Sellafield.
 - Dywedodd CT y byddai gweddillion tanwydd yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu symud yn unol â rheoliadau. Dywedodd DE y dylai pawb oedd yn bresennol ystyried y dogfennau ymgynghori ac y gellid naill ai anfon cwestiynau pellach i Horizon neu eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.
- Dywedodd y Cynghorydd Goronwy Edwards (GE) bod rhannau helaeth o Gonwy yn ardaloedd amgylcheddol sensitif. Dywedodd y byddai peilonau newydd yn niweidio'r diwydiant twristiaeth.
- Gofynnodd Llio Johnson (LIJ) sut roedd Horizon yn bwriadu ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc, gan nodi eu bod yn grŵp targed nad oedd yn debygol o fynd i lyfrgell i ofyn am gael gweld y deunyddiau ymgynghori
 - Dywedodd Saranne Postans (SP) fod Horizon eisoes yn gweithio gyda Llais Ni i ymdrin â sut oedd y ffordd orau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau ac roedd gwaith ar y gweill i ffurfio Grŵp Cyswllt Prosiect ar gyfer pobl ifanc. Dywedodd KSO fod ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau hefyd yn uchelgais hirdymor, gan gyfeirio at benodiad Claire Burgess.
- Gofynnodd Emyr Williams (EW), Pennaeth Ysgol David Hughes, sut y byddai ysgolion yn cael eu cynnwys. Dywedodd y gallai'r datblygiad greu anawsterau ariannol i ysgolion pe bai mewnlifiad mawr o bobl yn dod i Ynys Môn. Roedd hefyd yn awyddus i wybod a fyddai pobl – ac athrawon yn benodol – yn cael eu gwahodd i fynychu gweithdai ac a fyddai'r gweithdai yn rhan o gwricwlwm ysgol.
 - Dywedodd CT ei bod yn flaenoriaeth busnes i gefnogi'r system addysg leol ac roedd strategaeth ymgysylltu ag addysg yn cael ei llunio ar gyfer 2015 ymlaen. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sefydlu beth fyddai'r effeithiau tebygol ar ysgolion lleol a chyfleusterau eraill. Dywedodd ei bod yn anodd rhagweld faint o bobl fyddai'n symud i mewn yn sgil y prosiect mor gynnar â hyn yn y datblygiad ond

byddai hyn yn dod yn gliriach wrth i Horizon a Hitachi-GE lunio amserlenni a gweld beth oedd yr anghenion o ran cadwyn gyflenwi.

- Ychwanegodd Richard Foxhall (RF) bod nifer o gyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal gydag ysgolion ond bod angen i'r gwaith o lunio rhaglen addysg fod yn bartneriaeth rhwng Horizon a'r ysgolion. Mae angen i Horizon gael help ysgolion i amlinellu eu blaenoriaethau, fel bod modd ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu cynlluniau. Anogodd cynrychiolwyr ysgolion i gysylltu ag ef i drafod y pwnc yn fwy manwl.
- Dywedodd y Cynghorydd G.O. Jones (GOJ) ei fod yn falch o weld y safle newydd yn dod yn ei blaen, a'i fod ef wedi bod yn Wylfa er 1971. Gan gydnabod y byddai'r gweithgarwch yn yr orsaf bresennol yn dirwyn i ben cyn bo hir, gofynnodd beth fyddai'n digwydd i'r staff medrus oedd yn gweithio yng ngorsaf bresennol Magnox ar hyn o bryd. A oedd modd iddynt drosglwyddo i Wylfa Newydd er mwyn osgoi colli pobl o ansawdd uchel yn y bwllch rhwng dechrau dadgomisiynu Magnox a rhoi Wylfa Newydd ar waith?
 - Dywedodd CT bod Horizon yn cydweithio'n agos â Magnox ac y byddai gwybodaeth a chyfleoedd ar gyfer trosglwyddo staff yn cael eu rhannu wrth iddynt godi. Roedd awydd i fanteisio ar y sylfaen sgiliau bresennol ond, yn yr un modd, nid oedd Horizon am ddisbyddu'r adnoddau oedd ar gael i Magnox – felly mae amseriad yn allweddol. Dywedodd fod y naill ochr a'r llall yn awyddus i sicrhau y bodlonir eu gofynion a bod sgiliau'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Unrhyw Fater Arall

- Dywedodd DE ei fod wedi bod yn rhan o ddirprwyaeth o Gymru a aeth i Japan ym mis Mehefin 2014. Eglurodd ei fod ef a phobl eraill wedi cwrdd ag uwch swyddogion gweithredol Hitachi ac wedi cael eu tywys o amgylch Hitachi City. Ei nod oedd cael sicrwydd ynghylch prosiect Wylfa Newydd ac roedd yn falch o adrodd fod yr ymweliad wedi ei argyhoeddi y byddai Hitachi yn cyflawni ei addewidion a'i nodau. Roedd yn fodlon ei fod yn fuddsoddiad hirdymor yn yr ardal.
- Cododd GMJ y mater o sut y byddai Wylfa Newydd yn cael ei gysylltu i'r rhwydwaith trosglwyddo a phwysleisiodd ei bryder ynghylch y posibilrwydd o godi peilonau newydd ar Ynys Môn.
 - Dywedodd Gavin Crook (GC) o'r National Grid bod cytundeb cysylltu Celtic Arrays wedi cael ei derfynu a bod y cytundeb gyda Horizon wedi cael ei ddiweddarau yng nghyswllt y ddau adweithydd. Er bod llai o gynhyrchu, mae angen seilwaith trosglwyddonewydd. Ar hyn o bryd, mae National Grid yn adolygu sut mae'r newidiadau hyn a'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad yn effeithio ar y dewisiadau strategol a roddwyd gerbron cyn hyn.
 - Eglurodd y byddai cynrychiolydd o'r National Grid ar gael ym mhob un o ddiwyddiadau ymgynghori Horizon a gynhelir ym mis Hydref a mis Tachwedd gyda'r nod o ateb unrhyw gwestiynau sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.
 - Eglurodd nad oedd y National Grid yn gallu ateb unrhyw gwestiynau manwl am gysylltiadau eto, ond cadarnhaodd y byddai'r cwmni yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i

gymunedau yn y flwyddyn newydd. Byddai cam nesaf yr ymgynghoriad yn dilyn yn hwyrach ymlaen yn 2015.

- Awgrymodd GMJ y dylid gwahodd Martin Kinsey, Uwch Reolwr y Prosiect yn y National Grid i annerch cyfarfod nesaf Grŵp Cyswllt y Prosiect.

Cloi

- Diolchodd DE i bawb am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm. Gwahoddwyd yr aelodau i gael cipolwg ymlaen llaw ar yr arddangosfeydd ar gyfer yr ymgynghoriad i ddod yn syth ar ôl y cyfarfod.

I gael gwybodaeth fwy cyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 955 9516 neu ar [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac edrychwch ar www.horizonnuclearpower.com

Gallwch weld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau a roddwyd yng nghyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect yn www.wylfaplg.com